Planed Blanced



Amcanion dysgu:

Dechrau deall y gall rhai pethau y mae pobl yn eu gwneud wneud yr aer (atmosffer) o amgylch y Ddaear yn gynhesach

Archwilio y gall gormod o aer cynnes o amgylch y Ddaear wneud y blaned yn rhy boeth

Siarad am ffyrdd syml y gallwn ni helpu, fel cerdded, arbed ynni ac ailddefnyddio pethau

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

Ceidwad Ynni

Gwybodaeth ymarferydd:

Mae newid hinsawdd yn syniad mawr a chymhleth, felly gyda gyda phlant ifanc, mae'n well cadw'r iaith yn syml a chanolbwyntio ar ofalu am ein planed. Mae'r gweithgaredd hwn yn dangos bod angen rhywfaint o aer o amgylch y Ddaear er mwyn iddo aros yn gyfforddus, ond gall gormod o lygredd (nwyon tŷ gwydr) ei wneud yn rhy gynnes.

Nid oes angen i chi addysgu geiriau gwyddonol yn fanwl. Mae ymadroddion syml fel 'aer budr", "gormod o wres" a "ffyrdd o helpu'r blaned" yn ddigon ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Beth fydd ei angen arnoch chi:

- Hyd at chwe blanced.
- Plentyn neu oedolyn i esgus bod yn blaned.
- Teganau neu luniau fel ceir, awyrennau, beiciau, goleuadau ac eitemau cartref.



Gweithgaredd:

Byddwn yn canolbwyntio ar bedair prif broblem. Cludiant, ynni, 'pethau' a dŵr.

Trafnidiaeth:
Mae ceir, lorïau, llongau ac awyrennau yn rhyddhau gwres, gan ddal nwyon sy'n mynd i fyny i'r awyr (gallwn weld y rhain os edrychwn ar gefn car pan fydd yr injan yn rhedeg).
Gallwn helpu trwy gerdded, sgwtera, beicio, rhannu lifftiau neu ddefnyddio bysiau a threnau lle gallwn.

Ynni:
Rydym yn defnyddio ynni ar gyfer goleuadau, gwresogi, coginio a gwefru pethau. Weithiau gall gwneud yr ynni hwn roi aer budr neu gynnes (carbon deuocsid) i'r atmosffer.
Gallwn helpu trwy ddiffodd pethau pan nad oes eu hangen arnom a pheidio â gwastraffu ynni.

Pethau:
Mae gwneud teganau, dillad a phethau eraill yn defnyddio ynni. Gall taflu pethau i ffwrdd hefyd achosi problemau i'n planed.
Gallwn helpu trwy ailddefnyddio, atgyweirio, rhannu a dim ond prynu'r hyn sydd ei angen arnom.

Dŵr:
Mae dŵr glân yn werthfawr. Mae defnyddio gormod o ddŵr yn golygu bod yn rhaid glanhau a symud mwy o ddŵr, ac mae hynny'n defnyddio ynni. Nid yw gwastraffu dŵr yn dda i'n planed.
Gallwn helpu trwy ddiffodd tapiau'n iawn, defnyddio dim ond y dŵr sydd ei angen arnom a dweud wrth oedolyn os gwelwn ddŵr yn cael ei wastraffu.

Gallwch ddewis faint o syniadau rydych yn eu defnyddio gyda'ch plant.



Cam wrth gam

- Dewiswch blentyn neu oedolyn i esgus bod yn blaned.
- Siaradwch am sut mae dillad neu flancedi yn ein cadw'n gynnes. Eglurwch fod gan y Ddaear aer o'i chwmpas, a dylai fod ganddi'r union faint cywir i gadw ein planed ar y tymheredd perffaith, felly nid yn rhy boeth ac nid yn rhy oer.
- Dangoswch degan neu lun, fel car neu awyren. Dywedwch fod rhai pethau'n gwneud aer budr, a phan fydd yr aer yn mynd yn fudr mae'r blaned yn cynhesu.
- Rhowch un flanced o amgylch y "blaned" i ddangos y Ddaear yn cynhesu.
- Dangoswch enghraifft arall, gan droi'r goleuadau ymlaen, ac ychwanegwch flanced arall.
- Daliwch ati gyda chynifer o enghreifftiau ag y teimlwch sy'n iawn ar gyfer eich grŵp.



Cam wrth gam yn parhau...

- Daliwch ati gyda chynifer o enghreifftiau ag y teimlwch sy'n iawn i'ch grŵp.

- Gofynnwch i'r plentyn sy'n chwarae rhan y blaned a ydyn nhw'n teimlo'n boeth, yn gynnes neu'n anghyfforddus a chysylltwch hyn yn ôl â'n planed yn cynhesu.

- Siaradwch gyda'ch gilydd am yr hyn a allai helpu'r blaned i deimlo'n well, fel cerdded, arbed ynni neu ailddefnyddio pethau. Gall coed a phlanhigion ein helpu i lanhau'r awyr wrth iddyn nhw anadlu'r nwyon cynnes felly oes ffordd y gallan nhw ein helpu ni? Cymerwch flanced i ffwrdd bob tro mae'r plant yn meddwl am weithred ddefnyddiol fel y gallant weld y blaned yn oeri.



Eco-Tots Cymru

cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

The Moondance Foundation

Ceidwad Ynni

Eco-Tots Cymru

















Power Protectors

Eco-Tots Cymru










Power Protectors